SESIWN GYMRAEG: BYWYDAU CYDRADD NEU ANGHYDRADD?

Ystod oed: 9–14 oed

Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn chwarae'r gêm *Gwybod ble mae eich lle* i'w helpu i ddeall beth yw ystyr anghydraddoldeb a sut mae'n effeithio ar bobl mewn gwahanol rannau o'r gymdeithas. Yna byddant yn chwarae "gêm agored i niwed" sy'n dangos rhai o'r anghydraddoldebau sydd ymysg pobl sy'n byw yn Rio de Janeiro, y ddinas sy'n llwyfannu Gemau Olympaidd 2016. Yn olaf bydd y dysgwyr yn gwneud gweithgaredd chwarae rôl ac yn trafod a ddylai Rio de Janeiro lwyfannu'r Gemau Olympaidd ai peidio, gan ddefnyddio cyfres o gardiau rôl wedi'u seilio ar farn gwahanol bobl ddychmygol sy'n byw yn y ddinas.

Amcanion dysgu

- Datblygu sgiliau trafod.
- Deall beth yw anghenion a hawliau sylfaenol pob person a chydnabod nad yw'r anghenion hyn yn cael eu cwrdd weithiau yn Rio de Janeiro, fel sy'n wir am nifer o ddinasoedd o gwmpas y byd.
- Chwarae rôl a datblygu empathi tuag at y rhai na allant gyflawni eu hanghenion sylfaenol a mynnu eu hawliau.
- Ystyried beth yw goblygiadau dinas (neu wlad) yn gwario llawer iawn o arian ar ddigwyddiad chwaraeon mawr fel y Gemau Olympaidd.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn chwarae gêm, *Gwybod ble mae eich lle*, er mwyn dechrau deall beth yw ystyr anghydraddoldeb a sut mae'n effeithio ar bobl sy'n byw mewn cymdeithas.
- Bydd y dysgwyr yn chwarae "gêm agored i niwed" er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o sut mae anghydraddoldebau rhwng bywydau bobl yn Rio de Janeiro, fel sy'n wir am lawer o ddinasoedd o gwmpas y byd, a hynny yn ei dro'n effeithio ar ba mor agored i niwed mae pobl.
- Bydd y dysgwyr yn defnyddio gweithgaredd chwarae rôl i ystyried ac edrych ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn Rio de Janeiro'n llwyfannu'r Gemau Olympaidd.

Cwestiynau allweddol

- Pa anghydraddoldebau sydd rhwng y bobl sy'n byw yn Rio de Janeiro?
- Sut mae'r anghydraddoldebau hyn yn effeithio ar ba mor agored i niwed mae gwahanol bobl sy'n byw yn y ddinas?
- Ydy'r Gemau Olympaidd yn dda neu'n wael i Rio de Janeiro a Brasil?

Adnoddau

- *Chwarae Teg?* Sioe sleidiau Gymraeg: sleidiau 1–12
- Tua 30 botwm neu sticer
- Nodiadau gludiog, un i bob dysgwr
- Taflenni gweithgaredd:
  1. *Cardiau rôl gêm anghydraddoldeb*
  2. *Cardiau rôl o blaid y Gemau Olympaidd*
  3. *Cardiau rôl yn erbyn y Gemau Olympaidd*

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Cymru
CA2 a CA3 Cymraeg
Llafaredd: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau:

- Siarad, Gwrando, Cydweithredu a Thrafod
- Mynegi barn yn glir am bynciau a thestunau ysgrifenedig gan gefnogi'r farn honno â rhesymau a thystiolaeth berthnasol

Y Fframwaith Llythrennedd
ADCDF

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Nodyn: Ar gyfer y sesiwn hon, bydd ar y dysgwyr angen dealltwriaeth o'r term "anghydraddoldeb", wedi'i gyflwyno yn Sioe slediau'r Cyflwyniad (Intro slide show)*. Hefyd efallai byddwch eisiau bwrw golwg ar y* Trosolwg i Athrawon*.*

Gweithgaredd 1 *(30 munud)*

Gwybod ble mae eich lle

Nodyn: Bydd angen nodiadau gludiog arnoch ar gyfer y gweithgaredd hwn, digon i un y dysgwr. Dylai fod rhif rhwng un a deg wedi'i ysgrifennu ar bob nodyn gludiog. Mae angen o leiaf 20 o bobl i'r gweithgaredd hwn weithio'n dda.

- Dosbarthwch rai eitemau, fel botymau neu sticeri, yn anghyfartal o gwmpas y dosbarth. Cadwch y rhan fwyaf o'r botymau neu'r sticeri i chi'ch hun.
- Trafodwch y cwestiynau canlynol:
  - *Ydych chi'n meddwl bod y dosbarthiad hwn yn deg? Pam/Pam lai?*
  - *Sut rydych chi'n teimlo am y nifer o fotymau/sticeri sydd gennych chi?*
  - *Oes ffordd decach o ddosbarthu'r botymau/sticeri, yn eich barn chi? Os felly, beth yw honno a pham rydych chi'n meddwl y byddai hi'n decach?*
  - *Ydych chi'n meddwl y byddai hi'n deg petai gan bawb yr un nifer o fotymau/sticeri neu ydych chi'n meddwl y dylai fod mwy gan rai grwpiau o bobl?*
- Dangoswch sleid 3 ac egluro y gallwn feddwl am anghydraddoldeb fel y gwahaniaeth rhwng y pethau sydd gan rai grwpiau o bobl o'i gymharu â grwpiau eraill o bobl. Mae ychydig bach fel edrych pa mor fawr yw'r darn o deisen sydd gan un person o'i gymharu â pherson arall.
- Dangoswch sleid 4 ac eglurwch fod anghydraddoldeb rhwng gwledydd; er enghraifft mae rhai gwledydd yn gyfoethog ac mae eraill yn hynod o dlawd.
- Dangoswch sleid 5 ac eglurwch fod anghydraddoldeb yn aml o fewn gwledydd, lle mae gan rai pobl ychydig bach yn unig ac mae gan eraill lawer.
- Dangoswch sleid 6 a dywedwch nad yw anghydraddoldeb yn ymwneud yn unig â sut mae arian yn cael ei rannu rhwng neu o fewn gwledydd. Mae anghydraddoldeb yn effeithio ar y cyfleoedd sydd gan bobl hefyd. Er enghraifft, ym maes chwaraeon, mae gan rai athletwyr fynediad i gyfleusterau a hyfforddiant gwell nag eraill. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am ffyrdd eraill lle gallai bywydau pobl fod yn anghydradd, fel mynediad i ddŵr, addysg a gofal iechyd.
- Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i chwarae gêm i'w helpu i werthfawrogi'r anghydraddoldebau a all fodoli o fewn cymdeithasau.
- Rhowch nodyn gludiog ar dalcen neu ar gefn pob dysgwr heb adael iddynt weld eu rhif.
- Eglurwch fod y dysgwyr mewn cymdeithas hierarchaidd nawr. Mae rhif pob person yn adlewyrchu eu safle yn y gymdeithas. Po uchaf yw'r rhif, uchaf yw eu safle; po isaf yw'r rhif, isaf yw eu safle. Dylai pob person drin pobl "is" yn amharchus a thrin pobl "uwch" â pharch.
- Dylai'r dysgwyr grwydro o gwmpas y lle a rhyngweithio â'i gilydd yn ôl beth maen nhw'n meddwl yw eu safle mewn perthynas â'i gilydd. Eglurwch nad ydynt yn cael siarad. Dylai pob rhyngweithio fod heb eiriau. Diben y gêm yw i bob dysgwr ddod o hyd i'w le/lle yn y gymdeithas.
- Gadewch i'r dysgwyr chwarae'r gêm am 10 munud. Ar ôl y cyfnod hwn, gofynnwch i'r dysgwyr ffurfio rhes yn eu trefn, yn ôl lle maen nhw'n meddwl mae eu lle yn yr hierarchaeth. Yna gadewch iddyn nhw edrych ar eu rhifau eu hunain.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

- Trafodwch â'r dysgwyr sut roedden nhw'n teimlo am y gweithgaredd. Mae cwestiynau posibl i'w holi ar sleid 7.

Gweithgaredd 2 *(30 munud)*

Gêm anghydraddoldeb

*Nodyn: Ar gyfer y gweithgaredd hwn, bydd arnoch angen wagle mawr i'r dysgwyr symud o gwmpas ynddo. Os nad yw ar gael, gweler isod am addasiad a awgrymir i'r gweithgaredd.**

- Dangoswch sleid 8 a gofynnwch i'r dysgwyr dreulio ychydig funudau'n meddwl am y ffotograff. Mae cwestiynau posibl i lywio eu meddwl yn cynnwys:
    - *Ble tynnwyd y llun hwn, yn eich barn chi? Pam rydych chi'n meddwl hyn?*
    - *Hoffech chi fyw yma? Ble yn y ffotograff y byddai'n well gennych fyw a pham?*
    - *Pa eiriau y byddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'r ffotograff hwn?*
    - *Pa bethau allai fod yn debyg rhwng bywyd ar ddwy ochr wahanol y ffotograff?*
    - *Pa bethau allai fod yn wahanol rhwng bywyd ar ddwy ochr wahanol y ffotograff?*
    - *Sut mae'r ffotograff hwn yn gwneud i chi deimlo?*
    - *Pa gwestiynau hoffech chi eu holi am y ffotograff hwn?*
- Esboniwch fod y ffotograff wedi'i dynnu yn São Paulo, dinas fwyaf Brasil. Ar un ochr mae *favela* Paraisópolis, ar yr ochr draw mae ardal gyfoethog Morumbi. Efallai bydd angen ichi egluro mai ardal o slymiau yw *favela*; mae llawer o *favelas* mewn dinasoedd a threfi ledled Brasil. Dywedwch fod bywyd ym Mrasil, fel sy'n wir am nifer o wledydd eraill yn y byd, yn anghydradd, gyda rhai pobl â llawer mwy o gyfoeth a chyfleoedd bywyd nag eraill.
- Eglurwch y bydd Gemau Olympaidd 2016 yn digwydd yn Rio de Janeiro, ail ddinas fwyaf Brasil. Dywedwch fod y dysgwyr yn mynd i chwarae gêm i edrych ar rai o'r anghydraddoldebau sydd rhwng bywydau'r bobl sy'n byw yn y ddinas hon. Yn ogystal bydd y dysgwyr yn ystyried effeithiau posibl yr anghydraddoldebau hyn.
- Trefnwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri a gofynnwch i'r dysgwyr i gyd sefyll mewn llinell ar un ochr o'r ystafell, gyda'r parau neu'r grwpiau gyda'i gilydd. Rhowch un o'r *Cardiau rôl y gêm anghydraddoldeb* (Taflen gweithgareddau 1) i bob pâr neu grŵp.
- Eglurwch fod y cardiau rôl yn cynrychioli pobl ddychmygol sy'n byw yn Rio de Janeiro. Gofynnwch i'r dysgwyr dreulio ychydig funudau'n dychmygu bywyd bob dydd y person sydd wedi'i ddisgrifio ar eu cerdyn ac iddyn nhw feddwl am enw i'w cymeriad. Anogwch y dysgwyr i holi am help os nad ydynt yn deall unrhyw ran o'r wybodaeth am eu cymeriad.
- Darllenwch y rhestr o osodiadau isod a gofynnwch i'r dysgwyr hynny y gall eu cymeriadau gytuno â'r gosodiad roi cam ymlaen (rhowch amser iddyn nhw yn eu grwpiau i benderfynu a fydden nhw'n cytuno â'r gosodiad). Eglurwch nad oes unrhyw atebion cywir neu anghywir a'r dysgwyr sydd i wneud penderfyniad, yn seiliedig ar y wybodaeth ar eu cerdyn rôl. Anogwch unrhyw grwpiau nad ydynt yn siŵr sut dylent ateb i'ch holi chi am gyngor.
- Yn y pen draw bydd y dysgwyr hwnt ac yma ar draws yr ystafell, yn ôl sawl cam ymlaen maen nhw wedi'i roi.

Gosodiadau anghydraddoldeb

1. *Rydych chi'n cael neu rydych wedi cael addysg ysgol gynradd.*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

2. *Rydych chi'n cael neu rydych wedi cael addysg ysgol uwchradd.*
3. *Dydych chi byth yn brin o fwyd neu o ddŵr.*
4. *Gallwch fforddio gweld meddyg a phrynu meddyginiaeth pan fydd gennych broblemau iechyd.*
5. *Mae gennych rym i ddylanwadu ar bobl yn eich cymuned.*
6. *Mae gennych bobl sy'n poeni amdanoch ac yn eich gwarchod.*
7. *Does dim rhaid i chi wneud pethau peryglus er mwyn goroesi.*
8. *Rydych chi'n gallu fforddio lle i fyw.*
9. *Mae gennych chi sgiliau darllen ac ysgrifennu digon da i gael swydd sy'n rhoi cyflog rheolaidd.*
10. *Os ydych chi'n colli eich ffordd o wneud incwm, mae'n debygol y gallwch ddod o hyd i un arall.*

Nodyn: Mae'r gosodiadau anghydraddoldeb hyn wedi'u rhoi ar sleidiau 9 a 10 hefyd.

- Ar ôl i chi ddarllen y gosodiadau i gyd ar goedd, gofynnwch i'r grwpiau aros lle maen nhw a chyflwyno eu cymeriad i'r grwpiau eraill. Anogwch y dysgwyr i roi rhesymau dros eu penderfyniadau am faint o gamau roddon nhw.
- Gofynnwch i'r dysgwyr eraill a ydyn nhw'n meddwl bob pob cymeriad yn y lle cywir mewn perthynas ag eraill, er enghraifft: *Ydych chi'n meddwl y dylai'r xxxxx fod ymhellach ymlaen na'r xxxxx?* Anogwch drafodaethau lle mae anghytuno.
- Pwysleisiwch y pwynt hwn: yn yr un ffordd yr oedd pobl wahanol yn yr ystafell yn gallu rhoi niferoedd gwahanol o gamau, gall anghydraddoldebau ym mywydau pobl effeithio ar y cyfleoedd bywyd sydd ganddyn nhw. Hefyd mae anghydraddoldebau'n effeithio ar ba mor agored i niwed mae pobl pan fyddan nhw'n profi digwyddiadau bywyd na ellir eu rhagweld. Er enghraifft, os yw rhai pobl yn colli eu cartref neu eu swydd, bydd ganddynt gynilion neu yswiriant i'w helpu i ddod dros y sefyllfa. Ni fydd pobl heb y pethau hyn yn gallu gwneud hynny.
- Clowch drwy drafod y cwestiynau canlynol:
  - *Pam mae anghydraddoldebau rhwng bywydau pobl, yn eich barn chi?*
  - *Ydych chi'n meddwl bod yr anghydraddoldebau hyn yn deg? Pam/ pam lai?*

**Os nad oes gwagle mawr ar gael*

- *Yn lle rhoi camau ymlaen ar draws yr ystafell, gofynnwch i'r dysgwyr aros yn eu seddi ac i lenwi'r cylchoedd ar eu cerdyn rôl. Dylent lenwi cylch am bob gosodiad anghydraddoldeb y gallai eu cymeriad gytuno ag ef.*
- *Rhowch amser ar ddiwedd y gweithgaredd i'r dysgwyr gylchdroi a siarad â pharau neu â grwpiau eraill am eu cymeriadau a nifer y cylchoedd a lenwon nhw.*

Gweithgaredd 3 *(30 munud)*

O blaid neu yn erbyn y Gemau Olympaidd?

- Eglurwch y bydd y dysgwyr yn y gweithgaredd hwn yn cael gwybod am rai o'r rhesymau pam mae rhai o bobl Brasil o blaid cael y Gemau Olympaidd yn Rio de Janeiro ac am rai o'r rhesymau pam mae eraill yn ei erbyn.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

- Dangoswch sleid 11 ac eglurwch fod rhai pobl yn hapus iawn fod y Gemau Olympaidd yn dod i Rio de Janeiro yn 2016. Yn fyr trafodwch syniadau dysgwyr am fanteision posibl llwyfannu'r Gemau Olympaidd; er enghraifft mae rhai pobl o'r farn y bydd yn hyrwyddo'r ddinas a Brasil o gwmpas y byd yn ogystal â dod â llawer o arian i mewn.
- Eglurwch fod pobl eraill yn anhapus iawn fod y Gemau Olympaidd yn digwydd yn eu gwlad. Yn fyr trafodwch syniadau dysgwyr am y problemau posibl gyda llwyfannu'r Gemau Olympaidd.
- Dangoswch sleid 12 a dywedwch fod llawer o bobl ym Mrasil wedi cymryd rhan mewn protestiadau yn erbyn y Gemau Olympaidd a Chwpan y Byd, a gynhaliwyd ym Mrasil yn 2014. Cliciwch ar y ddolen ar sleid 12 i ddangos adroddiad newyddion am y protestiadau hyn.
- Trefnwch y dysgwyr yn barau. I un dysgwr ym mhob pâr, rhowch gopi o un o'r *Cardiau rôl o blaid y Gemau Olympaidd* (Taflen gweithgareddau 2) ac i'r dysgwr arall gopi o un o'r *Cardiau rôl yn erbyn y Gemau Olympaidd* (Taflen gweithgareddau 3).
- Eglurwch fod y cardiau rôl hyn yn cynrychioli barn pobl ddychmygol sy'n byw yn ninas Rio de Janeiro. *Nodyn: Er bod y cymeriadau'n rhai dychmygol, maent wedi'u seilio ar brofiadau a barn pobl go iawn sy'n byw yn y ddinas.*
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen eu cardiau rôl yn unigol a meddwl am sut bydden nhw'n cyflwyno'u cymeriad i'w partner. Ni ddylent ddangos eu cerdyn rôl i unrhyw un arall. *Ydy eu cymeriad o blaid neu yn erbyn bod y Gemau Olympaidd yn digwydd yn Rio de Janeiro? Pa resymau y mae eu cymeriad yn eu rhoi dros ei farn/ei barn?*
- Nawr gofynnwch i'r dysgwyr chwarae rôl fel eu cymeriadau. Dylent gael trafodaeth â'u partner ynghylch a ddylai'r Gemau Olympaidd ddigwydd yn Rio. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr iaith y gallent ei defnyddio i berswadio eu partner i newid ei feddwl. *Pa resymau y byddwch yn eu rhoi i gyfiawnhau eich barn?*
- Anogwch y dysgwyr i wrando'n ofalus ar farn y person arall yn eu pâr ac i geisio ymateb i'w dadleuon.
    - *Pa atebion y gallwch chi feddwl amdanynt i'r mater(ion) a gododd y cymeriad yn erbyn Gemau Olympaidd Rio 2016?*
    - *Ydych chi'n credu y bydd y manteision a awgrymodd y cymeriad sydd o blaid Gemau Olympaidd Rio 2016 yn helpu pob un o bobl Brasil?*
- Fel estyniad, gallai pob pâr ymuno ag un neu ddau o barau eraill (yn ddelfrydol gyda chardiau rôl gwahanol) a gallai'r dysgwyr gael trafodaeth fel grŵp o bedwar neu chwech.
- Dewch â'r drafodaeth i ben drwy holi pob pâr (neu grŵp) a ydyn nhw wedi dod i gasgliad ai peidio. Esboniwch nad oes gwahaniaeth os nad ydynt wedi dod i gasgliad ond eich bod yn gobeithio y bydd y gweithgaredd wedi gwneud i'r dysgwyr fod yn ymwybodol o rai o'r rhesymau o blaid ac yn erbyn cynnal y Gemau Olympaidd yn Rio de Janeiro.
- Yn olaf, fel dosbarth, trafodwch a yw'r dysgwyr yn meddwl y bydd Gemau Olympaidd Rio 2016 yn helpu i leihau neu i gynyddu anghydraddoldeb yn y ddinas.

Gwahaniaethu

- *I'w wneud yn haws: Gallai'r dysgwyr weithio mewn parau i chwarae rôl yr un cymeriad.*

Syniadau pellach

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

- Trefnwch drafodaeth ddosbarth am y cynnig: *Mae'r tŷ hwn yn credu y dylai'r Gemau Olympaidd gael eu cynnal yn Rio de Janeiro.*
- Edrychwch i weld ble bydd y Ffagl Olympaidd yn mynd ar ei ffordd o Olympia, dinas yng ngwlad Groeg (cartref y Gemau Olympaidd hynafol) i Rio de Janeiro, y ddinas sy'n llwyfannu'r gemau yn 2016, ac ysgrifennwch ddiwrnod ym mywyd un o'r rhai sy'n cario'r ffagl.
    - I gael rhagor o wybodaeth, gweler: www.rio2016.com/tochaolimpica/en
- Edrychwch ar sylw'r cyfryngau i Gemau Olympaidd 2016, ym Mrasil ac mewn gwledydd eraill ledled y byd. *Ydy'r sylw'n gyffredinol yn gadarnhaol neu'n negyddol? Pa fathau o faterion sy'n cael sylw? A oes rhywun yn mynd i'r afael ag unrhyw rai o'r materion a godir? Ydy hi'n ymddangos bod y Gemau Olympaidd yn helpu i wneud i'r ddinas sy'n eu llwyfannu fod yn lle tecach?* Cymharwch sylw'r cyfryngau i Gemau Olympaidd Rio 2016 i'r sylw i Gemau Olympaidd eraill, fel Llundain 2012 neu Beijing yn 2008. *Pa bethau sy'n debyg ac yn wahanol yn y sylw? Beth allai fod yn rhesymau dros unrhyw wahaniaethau?*
- Ymchwiliwch ac ysgrifennwch broffiliau o arwyr ac arwresau chwaraeon sydd wedi gorfod goresgyn rhwystrau yn eu bywydau i gael llwyddiant ym myd y campau. Er enghraifft, symudodd Mo Farah (athletau) a Luol Deng (pêl-fasged) i'r DU pan oeddent yn blant, y naill yn fudwr a'r llall yn ffoadur. Cafodd Tanni Grey Thompson ei geni gyda spina bifida ond aeth yn ei blaen i fod yn un o athletwyr anabl mwyaf llwyddiannus y DU, gan gystadlu mewn pump o Gemau Paralympaidd.
    - Gweler: *Olympics 30 – Great Olympic Stories:* www.olympics30.com
    - Rhowch gynnig ar *Heroes and Heroines – Carrying the torch for a fairer world* gan Bridges ac Oxfam: www.oxfam.org.uk/education/resources/heroes-and-heroines

Nodyn: Mae'r adnodd hwn, a gyhoeddwyd yn 2012, yn cynnwys Oscar Pistorius yn enghraifft o arwr.

- Ysgrifennwch stori eitem chwaraeon a ddefnyddir yn y Gemau Olympaidd yn Rio de Janeiro, fel pêl-droed. Meddyliwch am ble yn y byd y cafodd y cynnyrch ei wneud, sut cafodd ei wneud a'r bobl a oedd yn rhan o'r gadwyn gyflenwi. Disgrifiwch amodau gweithio ac elw'r gwahanol bobl sy'n rhan o'r stori, o'r ffatri lle cafodd yr eitem ei chynhyrchu i'r defnyddiwr ar ddiwedd y gadwyn.
    - Gweler *Fair's Fair – Life and rights in the global sports industry* gan Playfair, 2012, i gael gwybod rhagor am rai o'r bobl sy'n gwneud y nwyddau hyn mewn gwledydd tlotach, yn aml yn gweithio heb lawer o hawliau, ac am gyflogau isel iawn: www.playfair2012.org.uk/wp-content/uploads/2011/09/TUC_Fairs-fair_booklet.pdf
    - Rhowch gynnig ar *The Clothes Line* gan Oxfam i edrych ar gynhyrchu cotwm a'r diwydiant tecstilau yn India: www.oxfam.org.uk/education/resources/the-clothes-line
- Dysgwch ragor am achosion o anghydraddoldeb ac edrychwch ar ganlyniadau posibl i fywydau pobl ifanc mewn gwahanol rannau o'r byd, gan gynnwys y DU.
    - Gweler adnodd Saesneg Oxfam *More or Less Equal?* i ddysgwyr 11–16 oed: www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-english

Amodau defnyddio
Hawlfraint © Oxfam GB
Cewch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y'i defnyddiwch, rhaid ichi gydnabod y ffotograffydd a enwyd ar gyfer y ddelwedd honno ac Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu'r tu allan i'ch

sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser pan ddigwyddodd y gwaith prosiect. Er bod yr adnodd hwn yn cyfeirio at y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd drwyddi draw, defnydd golygyddol yn unig yw hwn ac nid oes unrhyw fath o gysylltiad rhwng y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol a'r adnodd hwn.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Cardiau rôl gêm anghydraddoldeb

Taflen gweithgareddau 1

Rydych chi'n fachgen 12 oed sy'n byw mewn *favela* ger canol y ddinas. Dydych chi ddim yn mynd i'r ysgol mwyach ac rydych chi'n aelod o gang. Mae llawer yn defnyddio cyffuriau yma; mae llawer o droseddu ac mae saethu'n digwydd yn aml rhwng gangiau sy'n cystadlu â'i gilydd a'r heddlu.	Rydych chi'n swyddog pwysig sy'n gweithio dros lywodraeth y ddinas. Rydych chi'n byw gyda'ch gŵr a'ch plant mewn fflat braf a gallwch fforddio popeth sydd ei angen arnoch.
Rydych chi'n ferch yn ei harddegau i brif weithredwr cwmni adeiladu mawr. Rydych chi'n mynd i ysgol breifat ac ar hyn o bryd rydych chi'n gwneud cais i fynd i'r brifysgol.	Rydych chi'n dod o bentref bychan yn nhalaith Minais Gerais. Symudoch chi i Rio de Janeiro y llynedd i ddod o hyd i waith. Mae'n anodd dod o hyd i waith ac efallai bydd rhaid i chi symud yn ôl i'ch pentref.
Rydych chi'n byw mewn *favela* i'r gorllewin o'r ddinas. Roedd bywyd yn anodd pan symudoch chi yma'n gyntaf ond mae pethau'n llawer gwell nawr. Mae gan eich cartref ddŵr sy'n rhedeg a thrydan ac rydych chi'n hoffi byw yma. Rydych chi'n gweithio fel glanhawr a hefyd rydych chi'n gwerthu llysiau yn y farchnad i ennill arian ychwanegol. Nid oeddech chi'n gallu gorffen eich addysg yn yr ysgol ond mae eich plant i gyd yn mynd i'r ysgol ac mae un ar fin dechrau yn y brifysgol.	Rydych chi'n swyddog heddlu sy'n gweithio yn y ddinas. Rydych chi'n ennill digon i fforddio fflat braf i'ch teulu ond mae'n waith peryglus. Er bod rhai rhannau o'r ddinas yn ddiogel mae llawer o droseddu yn yr ardal lle rydych chi'n gweithio. Mae rhai o'ch cydweithwyr wedi cael eu lladd mewn digwyddiadau saethu.
Rydych chi'n ferch 14 oed. Rydych chi'n ddigartref ac nid oes gennych unman i fyw. Weithiau rydych chi'n aros mewn lloches, ac weithiau rydych chi'n cysgu ar y stryd. Rydych chi'n begera am fwyd ac arian i oroesi. Yn aml rydych chi'n llwgu ac yn ofnus iawn.	Rydych chi'n athro yn un o ysgolion y wladwriaeth. Nid oes llawer o adnoddau gan eich ysgol a hoffech chi petai arian ar gael ar gyfer addysg. Dydych chi ddim yn ennill llawer ond rydych chi'n credu bod eich bywyd yn braf. Weithiau rydych chi'n mynd i dŷ bwyta neu i'r sinema gyda'ch ffrindiau.
Rydych chi'n gweithio fel banciwr i gwmni mawr, rhyngwladol. Rydych chi'n byw mewn fflat fawr, foethus ger traeth Copacabana.	Pêl-droediwr ydych chi. Cawsoch chi eich magu mewn *favela* ac roeddech chi wrth eich bodd yn chwarae pêl-droed gyda'ch ffrindiau pan oeddech yn blentyn. Rydych chi ar fin cael eich trosglwyddo i chwarae i dîm yn Ewrop.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Rydych chi'n byw ar gyrion y ddinas ond yn gweithio mewn swyddfa yng nghanol y ddinas. Mae'r traffig yma'n wael iawn ac mae'n cymryd tair awr ar y bws ichi deithio i'r gwaith bob dydd. Dydy eich cyflog chi ddim yn uchel iawn ac mae'r tâl am deithio ar y bws newydd godi eto.	Gweithioch chi'n galed yn yr ysgol a'r brifysgol ac roeddech chi'n hapus iawn pan gawsoch chi swydd gyda chwmni olew mawr. Ond colloch chi eich swydd yn ddiweddar. Mae problemau gyda'r economi yn Brasil yn golygu bod llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Cardiau rôl o blaid y Gemau Olympaidd **Taflen gweithgareddau 2**

Rwy'n brif weithredwr cwmni adeiladu mawr. Ni yw un o'r prif gwmnïau sy'n gweithio ar adeiladu'r safleoedd Olympaidd newydd yn y ddinas. Rydyn ni wedi buddsoddi llawer o arian yn y prosiect hwn ond dylen ni wneud llawer o arian wedyn. Mae'r rhan fwyaf o'r fflatiau ym mhentref yr athletwyr wedi cael eu gwerthu'n barod; mae llawer o bobl eisiau symud yma ar ôl i'r Gemau Olympaidd ddod i ben.	Rwy'n gweithio i lywodraeth y ddinas. Rydyn ni wedi bod yn brysur iawn yn paratoi at y Gemau Olympaidd. Rwy'n credu y bydd y Gemau Olympaidd yn brofiad a fydd yn newid bywyd pobl Brasil. Er bod Brasil yn cael ei hadnabod fel gwlad heddychlon, mae llawer yn cael eu llofruddio yma. Rwy'n gobeithio y bydd y Gemau Olympaidd yn dod â phawb at ei gilydd, beth bynnag yw eu cefndir neu eu diwylliant.
Rwyf wedi cynrychioli Brasil yn y Gemau Paralympaidd. Rwy'n edrych ymlaen at Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Rio 2016. Rwy'n dwlu ar chwaraeon ac rwy'n gobeithio y bydd y Gemau Olympaidd yn annog pobl eraill i'w mwynhau hefyd. Hefyd rwy'n credu y byddan nhw'n helpu i newid agweddau tuag at bobl anabl ym Mrasil. Rwy'n gobeithio y bydd pobl yn sylweddoli bod athletwyr Paralympaidd yn hyfforddi mor galed ag athletwyr Olympaidd.	Rwy'n yrrwr tacsi sy'n gweithio yn y ddinas. Mae'r traffig yma'n wael iawn. Rwy'n treulio llawer o'm hamser yn eistedd mewn tagfeydd traffig. Wrth baratoi at y Gemau Olympaidd mae'r llywodraeth wedi bod yn gwario arian i wella ein system drafnidiaeth, gyda llwybrau bysiau newydd, ffyrdd newydd ac estyniad i'r trên tanddaearol. Ar ôl i'r gwaith hwn orffen, gobeithio y bydd teithio o gwmpas y ddinas yn llawer haws.
Rwy'n gweithio fel tywysydd twristiaid yng nghanol y ddinas. Rwy'n gyffrous iawn am y Gemau Olympaidd. Bydd pobl o bedwar ban y byd yn teithio i'n dinas. Bydd yr ymwelwyr hyn yn dod â llawer o arian i mewn i'r wlad. Bydd y Gemau Olympaidd yn helpu i hyrwyddo Brasil a Rio fel rhai o'r cyrchfannau teithio gorau yn y byd.	Rwy'n byw gyda fy rhieni mewn fflat ger canol y ddinas. Bydd rhai o'r digwyddiadau chwaraeon Olympaidd yn digwydd gerllaw ein cartref ni! Rwy'n edrych ymlaen at wylio'r Gemau ar y teledu a hefyd rydym wedi prynu tocynnau i fynd i'r seremoni agoriadol ac i rai o'r digwyddiadau athletau. Rwy'n meddwl y daw'r Gemau Olympaidd â chyfoeth i'n dinas ac i Frasil. Rwy'n methu aros!

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Cardiau rôl yn erbyn y Gemau Olympaidd **Taflen gweithgareddau 3**

Rwy'n gweithio fel glanhawr yn un o ardaloedd mwy cyfoethog Rio de Janeiro. Dydy'r Gemau Olympaidd ddim wir i bobl fel fi. Pan nad oes gennych lawer o arian, allwch chi ddim mynd i bethau fel hyn. Rwy'n byw ar gyrion y ddinas ac mae'n cymryd tair awr i mi deithio i'r gwaith bob dydd oherwydd bod y traffig mor wael. Dylai'r llywodraeth fod yn gwario mwy o arian ar gludiant, nid y Gemau Olympaidd.	Rwy'n fiolegydd sy'n gweithio ac yn byw yn y ddinas. Bydd y cwrs golff newydd sy'n cael ei adeiladu ar gyfer y Gemau Olympaidd yn difrodi gwarchodfa natur sy'n gartref i loÿnnod byw prin, coed pîn a rhywogaethau eraill nad ydynt i'w gweld unrhyw le arall yn y byd.
Rwyf wedi byw mewn *favela* yn y ddinas gydol fy mywyd. Rwyf wrth fy modd yma ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae llawer o gartrefi fy nghymdogion wedi cael eu bwrw i lawr a chefais wybod bod rhaid i mi adael. Mae'r llywodraeth eisiau defnyddio ein tir i adeiladu safle Olympaidd. Rwyf wedi cael cynnig iawndal a chartref arall ond dydw i ddim eisiau mynd. Mae'r straen wedi gwneud i mi fod yn sâl, mae'r Gemau Olympaidd wedi gwneud i'm cartref gael ei ddinistrio.	Nyrs ydw i ac ymunais â llawer o bobl mewn protest yn erbyn Gemau Olympaidd 2016. Rydym ni'n wyllt gacwn fod gwerth biliynau o ddoleri o arian cyhoeddus yn cael ei wario i lwyfannu Gemau Olympaidd 2016. Byddai'n well gwario'r arian hwn ar wella addysg, trafnidiaeth a gofal iechyd. Bydd y Gemau Olympaidd yn gwneud arian i rai dynion busnes tra mae pobl dlawd yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi ac mae pawb yn gorfod talu trethi uwch.
Athro ydw i ac mae pob un o'r plant yn fy nosbarth yn edrych ymlaen at y Gemau Olympaidd. Hoffwn i petai'r arian wedi cael ei wario ar bethau i helpu athrawon i addysgu'n well, fel adeiladau ysgol newydd a chyrsiau hyfforddi athrawon ychwanegol. Rwy'n credu y dylai Brasil lwyfannu'r Gemau Olympaidd yn y dyfodol, ar ôl iddi ddod yn wlad fwy cydradd, ond nid nawr.	Rwyf wedi bod yn gweithio fel adeiladwr ar y safleoedd Olympaidd. Rwy'n dod o bentref bach, gwledig, a symudais i'r ddinas i ddod o hyd i waith. Roeddwn i'n falch o gael y gwaith hwn er mwyn gallu ennill arian i'r teulu. Ond rwy'n poeni bod y gwaith yn beryglus, ac mae rhai o'm ffrindiau wedi cael eu hanafu. Ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben, byddaf i heb swydd. Dydw i ddim yn siŵr beth wnaf i wedyn.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.